Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru
North Wales Corporate Joint Committee

CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

28 Tachwedd 2025

**TEITL:** Adroddiad Chwarterol yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol

**AWDUR:** Adam Graham, Uwch Swyddog Trafnidiaeth

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw hysbysu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig o waith yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol. Mae'r Adroddiad Chwarterol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd, perfformiad, canlyniadau a gofynion adnoddau'r is-bwyllgor. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Mawrth a mis Hydref 2025.

## 2. PENDERFYNIADAU A GEISIR

2.1. Nodi'r adroddiad a'i atodiad.

## 3. Y RHESWM DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Mae gofyn i'r is-bwyllgor adrodd yn rheolaidd i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig fel rhan o'i rôl fel y nodir yn y Cylch Gorchwyl ar gyfer yr is-bwyllgor.

## 4. CEFNDIR

4.1. Mae Cylch Gorchwyl yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol yn nodi "y bydd yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol yn paratoi adroddiad chwarterol ar ei waith ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforedig a fydd yn cynnwys:

- Cynnydd o ran gweithredu'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, gan gynnwys Rhaglenni a Phrosiectau unigol
- Perfformiad Ariannol y Pwyllgor
- Datblygiadau sydd ar y gweill"

4.2. Cyd-destun adroddiad o'r fath yw sicrhau bod gwaith yr is-bwyllgor yn agored ac yn dryloyw a bod ei swyddogaethau'n cael eu cyfathrebu'n glir. Cododd yr ymarfer ymgynghori ar y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ymwybyddiaeth o waith y CBC ac yn benodol ei bwerau mewn perthynas â datblygu a chyflawni polisïau trafnidiaeth ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru.

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

5. ADRODDIAD CHWARTEROL

5.1. Cyflwynwyd yr Adroddiad Chwarterol (***Atodiad 1***) i'r Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol ar 6 Hydref 2025. Ystyriodd yr Aelodau yr adroddiad ac ni wnaethant unrhyw argymhellion.

5.2. Ymhlith y pynciau a drafodir yn ***Atodiad 1*** yw'r Gronfa Drafnidiaeth Ranbarthol (RTF). Dylid nodi, ers i'r Adroddiad Chwarterol gael ei gyflwyno i'r Is-bwyllgor, bod yr Is-bwyllgor a'r CBC wedi ystyried yr RTF yn fanwl. Cymeradwywyd rhaglen ddrafft o gynlluniau a gynigiwyd ar gyfer cyllid RTF yn 2026/27 gan y CBC yn y cyfarfod ar 7 Tachwedd 2025.

6. GOBLYGIADAU ARIANNOL

6.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn deillio o'r adroddiad hwn.

7. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

7.1. Nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol yn deillio o'r adroddiad hwn.

---

ATODIADAU:

Atodiad 1: Adroddiad Chwarterol yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth Strategol

---

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. Swyddog Monitro:

"Dim sylwadau i'w hychwanegu mewn perthynas â phriodoldeb."

ii. Swyddog Cyllid Statudol:

"Credaf fod cynnwys yr atodiad yn adlewyrchiad cywir o'r sefyllfa ac nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiadau i'r penderfyniad a geisir."